


Beunydd gyda Duw

llawlyfr gweddi ddyddiol



Daily with God

a daily prayer manual

+ Gweddi'r Arglwydd

Ein Tad,
yr hwn wyt yn y nefoedd,
sancteiddier dy enw,
deled dy deyrnas,
gwneler dy ewyllys;
megis yn y nef, felly ar y ddaear hefyd.
Dyro i ni heddiw ein bara beunyddiol
a maddau i ni ein dyledion,
fel y maddeuwn ninnau i'n dyledwyr.
Ac nac arwain ni i brofedigaeth;
eithr gwared ni rhag drwg.

Canys eiddot ti yw'r deyrnas,
a'r gallu, a'r gogoniant,
yn oes oesoedd.
Amen.

Ein Tad yn y nefoedd,
sancteiddier dy enw,
deled dy deyrnas,
gwneler dy ewyllys,
ar y ddaear fel yn y nef.
Dyro inni heddiw ein bara beunyddiol;
a maddau inni ein troseddau,
fel yr ym ni wedi maddau
i'r rhai a droseddodd yn ein herbyn;
a phaid â'n dwyn i brawf,
ond gwared ni rhag yr Un drwg.
Oherwydd eiddot ti yw'r deyrnas
a'r gallu a'r gogoniant
am byth.
Amen.

+ Gloria Patri

Gogoniant i'r Tad, ac i'r Mab, ac i'r Ysbryd Glân;
fel yr oedd yn y dechrau, y mae yn awr,
ac y bydd yn wastad, yn oes oesoedd.
Amen.

+ The Lord's Prayer

Our Father who art in heaven,
hallowed be thy name,
thy kingdom come,
thy will be done,
on earth as it is in heaven.
Give us this day our daily bread.
And forgive us our trespasses
as we forgive those
who trespass against us.
And lead us not into temptation,
but deliver us from evil.

For thine is the kingdom,
the power and the glory,
for ever and ever.
Amen.

Our Father in heaven,
hallowed be your name,
your kingdom come,
your will be done,
on earth as in heaven.
Give us today our daily bread.
Forgive us our sins
as we forgive those
who sin against us.
Save us from the time of trial
and deliver us from evil.
For the kingdom, the power
and the glory are yours,
now and for ever.
Amen.

+ Gloria Patri

Glory to the Father, and to the Son, and to the Holy Spirit;
as it was in the beginning, is now,
and shall be for ever.
Amen.


© Corff Cynrychiolwyr yr Eglwys yng Nghymru

Cyhoeddwyd yn 2024
gan Gorff Cynrychiolwyr yr Eglwys yng Nghymru
Elusen gofrestrdedig, rhif 1142813
2 Sgwâr Callaghan,
Caerdydd.
CF10 5BT



Beunydd gyda Duw

llawlyfr gweddi ddyddiol



Daily with God

a daily prayer manual

Ni ddylid atgynhychu dim o'r cyhoeddiad hwn mewn unrhyw ffurf oddieithr yr hyn a ganiateir ac a ddisgrifir ar dudalen 58.

Perthyn pob llun a darluniad i © hawlfraint y perchennog:
gweler tudalen 59.

Cyhoeddwr:
Y Lolfa, Talybont, Ceredigion, Cymru. SY24 5HE

ISBN 978-1-80099-570-3

© The Representative Body of the Church in Wales

Published in 2024
by the Representative Body of the Church in Wales
a registered Charity, number 1142813
2 Callaghan Square,
Cardiff.
CF10 5BT

No part of this publication may be reproduced in any form other than the permitted forms as described on page 58.

All pictures and illustrations are © Copyright of the owner:
see page 59.

Publisher:
Y Lolfa, Talybont, Ceredigion, Wales. SY24 5HE

ISBN 978-1-80099-570-3

Cynlluniwyd a chysodwyd mewn Candara gan Ritchie Craven,
Corff Cynrychiolwyr yr Eglwys yng Nghymru.

Design and typesetting in Candara by Ritchie Craven,
Representative Body of the Church in Wales.



Cynnwys

+ Gweddi'r Arglwydd + Gloria Patri	Tu fewn y clawr blaen
Rhagair	Tudalen 1
+ Credo Nicea	Tudalen 3
Cylch ymbiliau ar gyfer pob dydd o'r wythnos ..	Tudalen 4
Salmau a darlenniadau a awgrymir	Tudalen 5
Y Foreol Weddi	Tudalen 6
+ Benedictus + Credo'r Bedydd + Te Deum Laudamus	
Yr Hwylol Weddi	Tudalen 16
+ Magnificat + Credo'r Apostolion + Y Diolch Cyffredinol	
Gweddi'r Nos	Tudalen 24
+ Nunc Dimittis + Veni, Creator Spiritus	
Yr Examen	Tudalen 31
Y Cymun Bendigaidd	Tudalen 32
+ Anima Christi	
Y Beibl	Tudalen 39
Y Flwyddyn Gristnogol	Tudalen 42
Myfyrio ar Ddigwyddiadau Bywyd	Tudalen 50
Diolch cyn prydau bwyd	Tudalen 57
Geiriau olaf Dewi Sant	Y tu mewn i'r clawr cefn
+ <i>testunau a ddefnyddir yn aml</i>	



Contents

+ The Lord's Prayer + Gloria Patri	Inside front cover
Introduction	Page 1
+ The Nicene Creed	Page 3
A cycle of prayer for each day of the week	Page 4
Suggested psalms and readings	Page 5
Morning Prayer	Page 6
+ Benedictus + The Baptismal Creed + Te Deum Laudamus	
Evening Prayer	Page 16
+ Magnificat + The Apostles' Creed + The General Thanksgiving	
Night Prayer	Page 24
+ Nunc Dimittis + Veni, Creator Spiritus	
The Examen	Page 31
Holy Communion	Page 32
+ Anima Christi	
The Bible	Page 39
The Christian Year	Page 42
Reflections on Life Events	Page 50
Thanksgiving before meals	Page 57
The final words of St. David	Inside back cover
+ <i>commonly used texts</i>	

Rhagair

Ym mlynnyddoedd fy arddedgau y dechreuodd fy ngwir ymgais i fod yn ddisgybl i Iesu, ac ar y daith ugain munud ar y bws ysgol yn y bore, pan allwn dreulio'r unigedd cymharol yn dysgu gweddïo, y dechreuodd fy mywyd o weddi. Ond pa eiriau y dylwn eu harfer a sut orau i agor fy hunan i bresenoldeb Duw?

Daeth cymorth ar ffurf llyfryn bychan a gefais wrth baratoi at gonffyrmasiwn. Amlygai batrymau elfennol ffordd yr Anglican at weddi. Dros y blynnyddoedd deuthum ar draws eraill a gafodd yr un profiad ac a ddysgodd sut i ddod gerbron Duw yn ddyddiol wrth ddefnyddio rhageiriau byrion, tebyg.

Gyda'n gilydd, yn Esgobion yr Eglwys yng Nghymru, dymunwn annog pob disgybl i Iesu i ymgymryd â disgyblaeth y weddi ddyddiol. Dyma foment pan rown gyfle i Dduw afael ynom a'n ffurfio gan ei gariad a'i ras a phan ddown â'r hyn sydd yn ein calon at ei sylw cariadus.

Wrth iddo ein dysgu am weddi dywed Iesu fod Duw yn ein caru ac yn aros yn ddisgwylgar i glywed ein gweddïau a'u hateb, a bod dod i'w bresenoldeb yn gofyn dim mwy na dweud wrtho feddyliau ein calonnau. Does dim angen gwneud na dweud dim arbennig, ond mae cael geiriau wedi eu darparu o gymorth. O gymorth hefyd yw gwybod ein bod yn gweddïo yng nghwmni torf enfawr y saint ar y ddaear ac yn y nef a'n bod yn gallu arfer geiriau sydd wedi eu treulio'n ffurfiau llyfn a bendithiol o hir ddefnydd ar hyd yr oesoedd; yn fwyaf arbennig y geiriau a ddysgodd Iesu ei hun i ni, Gweddï'r Arglwydd.



Introduction

My own real discipleship of Jesus started in my teenage years, and my life of prayer started on the twenty minute journey on the school bus in the morning, when I could spend the relative isolation learning to pray. However, what words should I use, and how best could I open myself to God's presence?

I was helped by a little manual that I had been given when preparing for confirmation, which set out the basic structures of an Anglican approach to prayer. Over the years I have encountered others who shared that experience, and learned how to come before God on a daily basis using similar short introductions.

Together as Bishops of the Church in Wales, we want to encourage every disciple of Jesus in the discipline of daily prayer. It is a moment when we allow God to catch hold of us, and to shape us by his love and grace, and when we can offer those things on our hearts for his loving attention.

Jesus teaches us about prayer. He tells us that God loves us, actively wishes to hear and address our prayers, and that coming into God's presence is as simple as speaking the thoughts of our heart. Prayer doesn't need any special words or actions, but being provided with words can often assist. It helps us to know that when we pray, we are joining the great company of saints, here on earth and in heaven, who themselves pray. We can use words worn into smooth and helpful shapes by being passed down from one generation to another, not least the words Jesus himself taught us, the Lord's Prayer.



Bwriedir i'r llawlyfr gweddi hwn, a roddwyd ynghyd gan y Comisiwn Litwrgaidd, roi ichi'r cyfle i ffurfio patrwm o weddio sy'n addas i chi. Ynndo ceir rhai o weddïau mwyaf a ffefrynnau Cristnogion drwy'r oesoedd (a hynny'n esbonio'r aml enw Lladin, rhyfedd). Cewch graidd o weddïau i'w harfer yn ddyddiol wrth ddod gerbron gorsedd gras Duw, ynghyd â gweddïau ar gyfer achlysur neu gyfle arbennig.

Ein gobaith yw y bydd y llyfr hwn yn gymorth a chefnogaeth i chi, ac y bydd ynndo weddïau yr hoffech eu dysgu ar eich cof ond, yn fwyaf pwysig, a ddaw â chi'n nes at Iesu a'ch calonogi wrth ichi geisio ei ddilyn ef.

+Gregory Llanelwy

Esgob Llanelwy,
â chyfrifoldeb am Ffydd, Trefn ac Undod,
ar ran holl esgobion yr Eglwys yng Nghymru.



This prayer manual, drawn together by the Liturgical Commission, is designed to offer you the opportunity to shape a pattern of prayer which suits you. It includes some of the greatest and best-loved prayers of Christians down through the ages (which is why they often have funny Latin names). It gives you a core of prayers to use daily as you approach the throne of God's grace, together with prayers for particular occasions and opportunities.

We hope that this book will help you and support you, and that there will even be prayers that you wish to learn by heart, but which, most importantly, will bring you closer to Jesus, and encourage you as you seek to follow him.

+Gregory Llanelwy

Bishop of St Asaph,
with responsibility for Faith, Order and Unity,
on behalf of all the bishops of the Church in Wales.



+ Credo Nicea

Credwn yn un Duw,
Y Tad, yr hollalluog,
gwneuthurwr nef a daear,
a phob peth gweledig ac anweledig.

Credwn yn un Arglwydd Iesu Grist,
unig Fab Duw,
a genhedlwyd gan y Tad cyn yr holl oesoedd,
Duw o Dduw, Llewyrch o Lewyrch,
gwir Dduw o wir Dduw,
wedi ei genhedlu, nid wedi ei wneuthur,
yn un hanfod â'r Tad,
a thrwyddo ef y gwnaed pob peth.
Er ein mwyn ni ac er ein hiachawdwriaeth
disgynnodd o'r nefoedd;
trwy nerth yr Ysbryd Glân daeth yn gnawd o Fair Forwyn,
ac fe'i gwnaed yn ddyn,
Fe'i croeshoeliwyd drosom dan Pontius Pilat.
Dioddefodd angau ac fe'i claddwyd.
Atgyfododd y trydydd dydd yn ôl yr Ysgrythurau,
ac esgynnodd i'r nef,
ac y mae'n eistedd ar ddeheulaw'r Tad.
A daw drachefn mewn gogoniant
i farnu'r byw a'r meirw:
ac ar ei deyrnas ni bydd diwedd.

Credwn yn yr Ysbryd Glân,
yr Arglwydd, rhoddwr bywyd,
sy'n deillio o'r Tad [a'r Mab]*,
ac ynghyd â'r Tad a'r Mab
a gydaddolir ac a gydogoneddir,
ac a lefarodd trwy'r proffwydi.

Credwn yn un Eglwys lân gatholig ac apostolig.
Cydabyddwn un bedydd er maddeuant pechodau.
A disgwyliwn am atgyfodiad y meirw,
a bywyd y byd sydd i ddyfod.

Amen.

A gytunwyd yng Nghynghorau cynnar yr Eglwys ac a dderbyniwyd gan Anglicaniaid yn 'ddatganiad digonol o'r Ffydd Gristnogol.'

*[*Ychwanegiad diweddarach i'r testun gwreiddiol yw'r ymadrodd hwn.]*



+ The Nicene Creed

We believe in one God,
the Father, the almighty,
maker of heaven and earth,
of all that is, seen and unseen.

We believe in one Lord, Jesus Christ,
the only Son of God,
eternally begotten of the Father,
God from God, Light from Light,
true God from true God,
begotten, not made,
of one Being with the Father.

Through him all things were made.

For us and for our salvation
he came down from heaven;
by the power of the Holy Spirit
he became incarnate from the Virgin Mary,
and was made man.

For our sake he was crucified under Pontius Pilate;
he suffered death and was buried.

On the third day he rose again
in accordance with the Scriptures;
he ascended into heaven
and is seated at the right hand of the Father.

He will come again in glory
to judge the living and the dead,
and his kingdom will have no end.

We believe in the Holy Spirit,
the Lord, the giver of life,
who proceeds from the Father [and the Son]*,
who with the Father and the Son
is worshipped and glorified,
who has spoken through the prophets.

We believe in one holy catholic and apostolic Church.

We acknowledge one baptism for the forgiveness of sins.

We look for the resurrection of the dead,
and the life of the world to come.

Amen.

Agreed at the early Councils of the Church, and accepted by Anglicans as 'the sufficient statement of Christian faith'.

*[*This phrase is a later addition to the original text.]*



Cylch Gweddi ar gyfer Dyddiau'r Wythnos

Dydd Sul

Diolch am yr atgyfodiad.
Gweddio dros yr Eglwys fyd-eang.

Dydd Llun

Diolch am y cread.
Gweddio am iacháu'r amgylchfyd
a thros bawb sy'n gweithio ar y tir.

Dydd Mawrth

Diolch am roddion Duw mewn meddwl a nerth.
Gweddio am gyfleon i wasanaethu.

Dydd Mercher

Diolch am deulu a ffrindiau.
Gweddio dros bawb sy'n byw ar ei ben ei hun
neu mewn ofn.

Dydd Iau

Diolch am weithwyr iechyd a gofal cymdeithasol.
Gweddio am iachâd i bawb sy'n dioddef.

Dydd Gwener

Diolch am bawb sy'n gweithio tuag at heddwch.
Gweddio am faddeuant a chymod.

Dydd Sadwrn

Diolch am ddarpariaeth a gofal Duw.
Gweddio am ddyfodiad Teyrnas Crist.

A cycle of prayer for each day of the week

Sunday

Give thanks for the resurrection.
Pray for the worldwide Church.

Monday

Give thanks for creation.
Pray for the healing of the environment
and for all those who work on the land.

Tuesday

Give thanks for God's gifts of mind and strength.
Pray for opportunities of service.

Wednesday

Give thanks for family and friends.
Pray for all who live alone or in fear.

Thursday

Give thanks for health and social care workers.
Pray for healing for all who suffer.

Friday

Give thanks for those who work for peace.
Pray for forgiveness and reconciliation.

Saturday

Give thanks for God's provision and care.
Pray for the coming of Christ's Kingdom.



Awgrymir y salmau a'r darlleniadau hyn i'w harfer yn ystod:

<i>Y Foreol Weddi</i>	<i>Yr Hwylol Weddi</i>	<i>Gweddî'r Nos</i>
Salm 19 Genesis 1. 1-5 2 Corinthiaid 5. 17-19a	Dydd Sul Salm 16 Ioan 5. 15-18 Datguddiad 21. 1-4	Salm 91 Datguddiad 22. 4-5
Salm 10 Eseia 49. 1b-4 Mathew 25. 19-21	Dydd Llun Salm 65 Diarhebion 3. 7-12 Marc 4. 26-29	Salm 86 1 Thesaloniaid 5. 9-10
Salm 119. 1-16 Deuteronomium 28. 1-4 Ioan 9. 1-5	Dydd Mawrth Salm 48 Eseia 35. 3-6 Datguddiad 22. 1-2	Salm 143. 1-11 1 Pedr 5. 8-9
Salm 27 Eseia 61. 1-3a Mathew 9. 35-diwedd	Dydd Mercher Salm 30 Micha 4. 1-4a Ioan 18. 33, 36-38	Salm 31. 1-5; 130 Effesiaid 4. 26-27
Salm 41 Deuteronomium 15. 7-11 1 Pedr 2. 9-10	Dydd Iau Salm 122 Eseia 43. 5-7 Ioan 17. 18-23	Salm 23 1 Thesaloniaid 5. 23
Salm 51 2 Cronicl 7. 13-14 Effesiaid 2. 13-18	Dydd Gwener Salm 46 Eseia 57. 15-19 Luc 9. 22-25	Salm 22 Jeremeia 14. 9
Salm 19 Eseia 11. 6-9 Effesiaid 3. 14-19	Dydd Sadwrn Salm 116, 150 Ioan 11. 17-26a Datguddiad 5. 8-10	Salm 4; 134 Datguddiad 22. 4-5

Gellir dod o hyd i Ddetholiad o salmau a darlleniadau ar gyfer amrywiol dymhorau'r flwyddyn eglwysig yng nghyhoeddiad yr Eglwys yng Nghymru, **Gweddî Ddyddiol** (Atodiad VII, tudalennau 269–285) neu ceir detholiad llawnach, a salmau a darlleniadau gwahanol ar gyfer pob dydd, yn **Llithiadur yr Eglwys yng Nghymru**.

Mae gweddïau, hefyd, ar gyfer y tymhorau hyn ar dudalen 43 o'r llyfr hwn.



Suggested psalms and readings for use with:

<i>Morning Prayer</i>	<i>Evening Prayer</i>	<i>Night Prayer</i>
	Sunday	
Psalms 19 Genesis 1. 1-5 2 Corinthians 5. 17-19a	Psalms 16 John 5. 15-18 Revelation 21. 1-4	Psalms 91 Revelation 22. 4-5
	Monday	
Psalms 10 Isaiah 49. 1b-4 Matthew 25. 19-21	Psalms 65 Proverbs 3. 7-12 Mark 4. 26-29	Psalms 86 1 Thessalonians 5. 9-10
	Tuesday	
Psalms 119. 1-16 Deuteronomy 28. 1-4 John 9. 1-5	Psalms 48 Isaiah 35. 3-6 Revelation 22. 1-2	Psalms 143. 1-11 1 Peter 5. 8-9
	Wednesday	
Psalms 27 Isaiah 61. 1-3a Matthew 9. 35-end	Psalms 30 Micha 4. 1-4a John 18. 33, 36-38	Psalms 31. 1-5; 130 Ephesians 4. 26-27
	Thursday	
Psalms 41 Deuteronomy 15. 7-11 1 Peter 2. 9-10	Psalms 122 Isaiah 43. 5-7 John 17. 18-23	Psalms 23 1 Thessalonians 5. 23
	Friday	
Psalms 51 2 Chronicles 7. 13-14 Ephesians 2. 13-18	Psalms 46 Isaiah 57. 15-19 Luke 9. 22-25	Psalms 22 Jeremiah 14. 9
	Saturday	
Psalms 19 Isaiah 11. 6-9 Ephesians 3. 14-19	Psalms 116; 150 John 11. 17-26a Revelation 5. 8-10	Psalms 4; 134 Revelation 22. 4-5

Selections of psalms and readings for the various seasons of the church year may be found in the Church in Wales' publication, **Daily Prayer** (Appendix VII, pages 269–285) or for a fuller selection, with different psalms and readings for each day, refer to the **Church in Wales' Lectionary**.

Prayers for these seasons may also be found on page 43 of this book.



Morning Prayer

May the first words I utter,
as I rise in the morning,
... be 'Clothe me in the Cross of Christ.'

*Adapted from the Black Book of Carmarthen
(Thirteenth Century)*

Y Foreol Weddi

Cyntaf gair a ddywedaf,
y bore pan gyfodaf,
Croes Crist yn wisg amdanaf.

*O Lyfr Du Caerfyrddin
(Y Drydydd Ganrif ar Ddeg)*

Y Foreol Weddi

Arglwydd, agor ein gwefusau,
A'n genau a fynega dy foliant.

Gogoniant i'r Tad, ac i'r Mab,
ac i'r Ysbryd Glân;
fel yr oedd yn y dechrau, y mae yn awr,
ac y bydd yn wastad, yn oes oesoedd. **Amen.**

Gweddï ddïstaw / myfyrdod ar y dydd sydd i ddod.

Yn gynnar yn y bore
daw fy ngweddï atat.
Arglwydd, trugarha.
Arglwydd, trugarha.

Yr wyt yn llefaru yn fy nghalon ac yn dweud
'ceisia fy wyneb';
am hynny ceisiaf dy wyneb, O Arglwydd.
Crist, trugarha.
Crist, trugarha.

Bydded geiriau fy ngenau'n dderbyniol gennyt,
a myfyrdod fy nghalon yn gymeradwy i ti,
O Arglwydd, fy nghraig a'm prynwr.
Arglwydd, trugarha.
Arglwydd, trugarha.

Y Salm*

Darlleniad o'r Hen Destament*

Gall cyfnod o fyfyrdod distaw ddilyn y darlleniad.

* Gweler tudalen 5



Morning Prayer

O Lord, open our lips,
And our mouth shall proclaim your praise.

Glory to the Father, and to the Son,
and to the Holy Spirit;
as it was in the beginning, is now,
and shall be for ever. **Amen.**

A time of silent prayer / reflection on the coming day.

Early in the morning
my prayer comes before you.
Lord, have mercy.
Lord, have mercy.

You speak in my heart and say
'seek my face';
your face, Lord, will I seek.
Christ, have mercy.
Christ, have mercy.

Let the words of my mouth
and the meditation of my heart
be acceptable in your sight,
Lord, my strength and my Redeemer.
Lord, have mercy.
Lord, have mercy.

The Psalm*

The Old Testament reading*

A time of silent reflection may follow each reading.

* See page 5



+ Cantigl o'r Efengyl ~ Benedictus

Bendigedig fyddo Arglwydd Dduw Israel:
am iddo ymweld â'i bobl a'u prynu i ryddid;

Cododd waredigaeth gadarn i ni:
yn nhŷ Dafydd ei was –

Fel y llefarodd trwy enau ei broffwydi sanctaidd:
yn yr oesoedd a fu –

Gwardigaeth rhag ein gelynon:
ac o afael pawb sydd yn ein casáu;

Fel hyn y cymerodd drugaredd ar ein hynafiaid:
a chofio ei gyfamod sanctaidd,

Y llw a dyngodd wrth Abraham ein tad:
y rhoddai inni gael ein hachub o afael gelynon,

A'i addoli yn ddi-ofn mewn sancteiddrwydd a chyfiawnder:
ger ei fron ef holl ddyddiau ein bywyd.

A thithau, fy mhlentyn, gelwir di yn broffwyd y Goruchaf:
oherwydd byddi'n cerdded o flaen yr Arglwydd
i baratoi ei lwybrau,

I roi i'w bobl wybodaeth am waredigaeth:
trwy faddeuant eu pechodau.

Hyn yw trugaredd calon ein Duw:
fe ddaw â'r wawrddydd oddi uchod i'n plith,

I lewyrchu ar y rhai sy'n eistedd yn nhywyllwch cysgod angau:
a chyfeirio ein traed i ffordd tangnefedd.

**Gogoniant i'r Tad, ac i'r Mab,
ac i'r Ysbryd Glân;
fel yr oedd yn y dechrau, y mae yn awr,
ac y bydd yn wastad, yn oes oesoedd. Amen.**



+ The Gospel canticle ~ Benedictus

Blessed be the Lord the God of Israel:
for he has come to his people and set them free.

The Lord has raised up for us a mighty Saviour:
born of the house of his servant David.

Through his holy prophets God promised of old
to save us from our enemies:
from the hands of all who hate us.

To show mercy to our forebears:
and to remember his holy covenant.

This was the oath God swore to our father Abraham:
to set us free from the hands of our enemies,

Free to worship him without fear:
holy and righteous before him all the days of our life.

And you, child, shall be called
the prophet of the Most High:
for you will go before the Lord to prepare his way,

To give his people knowledge of salvation:
by the forgiveness of their sins.

In the tender compassion of our God:
the dawn from on high shall break upon us,

To shine on those who dwell in darkness
and the shadow of death:
and to guide our feet into the way of peace.

**Glory to the Father, and to the Son,
and to the Holy Spirit;
as it was in the beginning, is now,
and shall be for ever. Amen.**



+ Credo'r Bedydd

Yr wyf yn credu ac yn ymddiried yn Nuw Dad,
ffynhonnell pob bod a bywyd,
yr un yr ydym yn bod er ei fwyn.

Yr wyf yn credu ac yn ymddiried yn Nuw Fab,
a gymerodd ein natur ddynol ni,
a fu farw drosom ac a atgyfododd.

Yr wyf yn credu ac yn ymddiried
yn Nuw Ysbryd Glân,
sy'n rhoi bywyd i bobl Dduw
ac yn amlygu Crist yn y byd.

Dyma ffydd yr Eglwys.
Dyma ein ffydd ni.
Yr ydym yn credu ac yn ymddiried yn un Duw,
Tad, Mab ac Ysbryd Glân. Amen.

+ Gweddi'r Arglwydd

Y mae'r Arglwydd yma.
Y mae ei Ysbryd gyda ni.

Ein Tad ...

(Gweler y tu mewn i'r clawr blaen)

Call ymbiliau ddilyn yma; gweler tudalen 4.



+ The Baptismal Creed

I believe and trust in God the Father,
source of all being and life,
the one for whom we exist.

I believe and trust in God the Son,
who took our human nature,
died for us and rose again.

I believe and trust
in God the Holy Spirit,
who gives life to the people of God
and makes Christ known in the world.

This is the faith of the Church.
This is our Faith.
We believe and trust in one God,
Father, Son and Holy Spirit. Amen

+ The Lord's Prayer

The Lord is here.
His Spirit is with us.

Our Father ...

(See inside front cover)

Prayers of intercession may follow here; see page 4.



Colect boreol

Dragwyddol Dduw a Thad,
y crewyd ni trwy dy allu
a'n prynu trwy dy gariad,
tywys a nertha ni â'th Ysbryd,
fel y gallwn ein rhoi ein hunain i ti
trwy garu a gwasanaethu'n gilydd;
yn Iesu Grist ein Harglwydd. **Amen.**

Neu

O Arglwydd a nefol Dad,
Dduw hollalluog a thragwyddol,
diolchwn iti am ein dwyn yn ddiogel
i ddechrau'r dydd newydd hwn:
amddiffyn ni â'th gadarn allu
fel y'n cedwir ni yn rhydd rhag pob pechod
ac yn ddiogel rhag pob perygl;
a galluoga ni ym mhob peth
i wneud yn unig yr hyn sydd iawn yn dy olwg di;
trwy Iesu Grist ein Harglwydd. **Amen.**

Yr Arglwydd a fo gyda chwi.
A hefyd gyda thi.

Bendithiwn yr Arglwydd.
I Dduw y bo'r diolch.

**Gras ein Harglwydd Iesu Grist,
a chariad Duw,
a chymdeithas yr Ysbryd Glân
fyddo gyda ni oll byth bythoedd. Amen.**



Morning collect

Eternal God and Father,
by your power we are created
and by your love we are redeemed:
guide and strengthen us by your Spirit,
that we may give ourselves to you
in love and service of one another;
through Jesus Christ our Lord. **Amen.**

Or

O Lord and heavenly Father,
almighty and everlasting God,
we thank you for bringing us safely
to the beginning of this new day:
defend us by your mighty power
that we may be kept free from all sin
and safe from every danger;
and enable us in everything
to do only what is right in your eyes;
through Jesus Christ our Lord. **Amen.**

The Lord be with you.
And also with you.

Let us bless the Lord.
Thanks be to God.

**The grace of our Lord Jesus Christ,
the love of God,
and the fellowship of the Holy Spirit
be with us all, evermore. Amen.**



Gweddïau ychwanegol ar gyfer y bore

Gweddi am gariad Duw

Arglwydd, fe'n dysgaist
 mai diwerth yw ein holl weithredoedd heb gariad:
 anfon dy Ysbryd Glân
 a thywallt yn ein calonnau
 ddawn odidocaf cariad,
 sy'n wir rwymyn tangnefedd a phob rhinwedd dda,
 y cyfrifir pwy bynnag sy'n byw hebddo
 yn farw ger dy fron di.
 Caniatâ hyn er mwyn dy unig Fab Iesu Grist
 sy'n fyw ac yn teyrnasu gyda thi,
 yn undod yr Ysbryd Glân,
 yn un Duw, yn awr ac am byth. **Amen.**

Y Colect ar gyfer yr Ail Sul wedi'r Drindod

Emyn i'r Drindod

I Dad y trugareddau i gyd,
 Rhown foliant, holl drigolion byd;
 Llu'r nef, moliennwch ef ar gân,
 Y Tad a'r Mab a'r Ysbryd Glân. **Amen.**

Gweddi gan St. Ignatius o Loyola (1491~1556)

Dysg ni, Arglwydd da,
 i'th wasanaethu fel yr haeddi:
 i roi heb gyfri'r gost,
 i frwydro heb ystyried y clwyfau,
 i weithio heb geisio gorffwys,
 i lafurio heb ddisgwyl unrhyw wobr
 ond gwybod ein bod yn gwneud dy ewyllys di
 yn Iesu Grist ein Gwardwr. **Amen.**



Additional prayers for the morning

A prayer for God's love

Lord, you have taught us
 that all our doings without love are nothing worth:
 send your Holy Spirit
 and pour into our hearts
 that most excellent gift of love,
 the true bond of peace and of all virtues,
 without which whoever lives
 is counted dead before you.
 Grant this for your only Son Jesus Christ's sake,
 who is alive and reigns with you,
 in the unity of the Holy Spirit,
 one God, now and for ever. **Amen.**

Collect for the Second Sunday after Trinity

A hymn to the Trinity

Praise God from whom all blessings flow,
 Praise him all creatures here below;
 Praise him above, angelic host,
 Praise Father, Son and Holy Ghost. **Amen.**

A prayer of St. Ignatius of Loyola (1491~1556)

Teach us, good Lord,
 to serve you as you deserve:
 to give and not to count the cost,
 to fight and not to heed the wounds,
 to toil and not to seek for rest,
 to labour and not to ask for any reward,
 save that of knowing that we do your will
 in Jesus Christ our Saviour. **Amen.**



Gweddi a ysbrydolwyd gan St. Catherine o Siena (1347~1380)

Tyrd Ysbryd Glân,
 trwy dy nerth tynn fy nghalon atat.
 Fy Nuw, a minnau'n blentyn i ti,
 dyro imi dy garu a'th barchu;
 yn dy drugaredd diderfyn,
 cadw fi rhag meddyliau drwg;
 â'th gariad annwyl cynhesa fi, pâr imi fod yn wenfflam
 fel y gwneir yn ysgafnach anawsterau'r bywyd hwn.
 Fy Nhad, fy Arglwydd tirion,
 dyro gymorth imi ym mhopeth a wnafr.
 Iesu, cariad, Iesu, cariad. **Amen.**

Gweddi a ysbrydolwyd gan Hildegard o Bingen (1098~1179)

Dân cysurlon yr Ysbryd
 a Bywyd oddi mewn i wir Fywyd y Cread,
 sydd â'th sancteiddrwydd yn dwyn popeth i fodolaeth:
 fel y mae dy eneniad yn gwneud popeth yn gyfan,
 yn glanhau hyd yn oed y clwyfau llidus,
 felly una dy greaduriaid i gyd yn Un.

Anadl cysegredig a thân o gariad,
 ffynnon buraf yn uno dieithriaid
 ac yn ceisio'r colledig:
 gofala am y sawl sy'n gaeth gan bechod.

Droetffordd sicraf, yn torri ffyrdd
 drwy uchelder nefol i ddyfnder daear,
 sydd â'th nerth creadigol yn peri i gymylau lifo,
 i gerrig fod yn llaith, i byllau droi'n afonydd
 ac i'r ddaear ollwng allan anadl Bywyd:
 Tynn ni i'th adnabod, ysbrydola ni â Doethineb,
 dyro inni lawenydd.

Pob clod i ti,
 ffynhonnell addoliad a thlws pennaf bywyd:
 trwy'r gobaith a geir gennynt a'th fendith ddrudfawr
 arwain ni i etifeddu Goleuni yn wobwr. **Amen.**

**A prayer inspired by St. Catherine of Siena (1347~1380)**

Holy Spirit, come,
 by your power draw my heart to you.
 My God, as your child,
 give me love and respect for you;
 in your boundless compassion,
 keep me from evil thoughts;
 with your dear love warm me, set me ablaze,
 and thereby lighten the difficulties of this life.
 My Father, my sweet Lord,
 help me in all that I undertake.
 Jesus, love, Jesus, love. **Amen.**

A prayer inspired by Hildegard of Bingen (1098~1179)

Comforting fire of Spirit,
 Life within Creation's true Life,
 whose holiness gives all things existence:
 as your anointing makes everything whole,
 cleansing even festering wounds,
 unite all your creatures as One.

Sacred breath, fire of love,
 purest fountain uniting strangers
 and searching out the lost:
 care for those imprisoned by sin.

Surest pathway, carving ways
 through heavenly height to earthly abyss;
 in whose creating power clouds stream,
 stones are made moist, puddles become rivers,
 and the earth exudes Life:
 draw us to know you, inspire us with Wisdom, bring joy.

All praise to you,
 source of worship, greatest prize of life:
 by your hope and rich blessing
 lead us to inherit the reward of Light. **Amen.**



Emyn ar gyfer pererindod bywyd

Arglwydd, arwain drwy'r anialwch
 fi, bererin gwael ei wedd,
 nad oes ynof nerth na bywyd,
 fel yn gorwedd yn y bedd:
 hollalluog
 ydyw'r Un a'm cwyd i'r lan.

Colofn dân rho'r nos i'm harwain,
 a rho golofn niwl y dydd;
 dal fi pan fwy'n teithio'r manau
 geirwon yn y ffordd y sydd;
 rho im fanna
 fel na bwyf yn llwfwrhau.

Agor y ffynhonnau melys
 sydd yn tarddu o'r graig i maes;
 'r hyd yr anial mawr canlyned
 afon iachawdwriaeth gras;
 rho im hynny:
 dim i mi ond dy fwynhau.

Ymddiriedaf yn dy allu,
 mawr yw'r gwaith a wnest erioed:
 ti gest angau, ti gest uffern,
 ti gest Satan dan dy droed:
 pen Calfaria
 nac aed hwnnw byth o'm cof.

William Williams [Pant-y-Celyn], (1717~1791)

**A hymn for the pilgrimage of life**

Guide me, O thou great Redeemer,
 pilgrim through this barren land;
 I am weak, but thou art mighty;
 hold me with thy powerful hand:
 Bread of heaven,
 feed me now and evermore.

Open now the crystal fountain
 whence the healing stream doth flow;
 let the fiery cloudy pillar
 lead me all my journey through:
 strong deliverer,
 be thou still my strength and shield.

When I tread the verge of Jordan,
 bid my anxious fears subside;
 death of death, and hell's destruction,
 land me safe on Canaan's side:
 songs and praises
 I will ever give to thee.

*William Williams [Pant-y-Celyn], (1717~1791)
 translated by Peter Williams (1723~1796)
 and William Williams [Pant-y-Celyn]*



Cantiglau boreol amgen

+ Te Deum Laudamus

Molwn di, O Dduw:
cydnabyddwn di yn Arglwydd;

Y mae'r holl greadigaeth yn d'addoli di:
y Tad tragwyddol.

I ti y cân yr holl angylion a holl rymoedd y nef:
y cerwbiaid a'r seraffiaid mewn mawl diderfyn,

Sanctaidd, sanctaidd, sanctaidd Arglwydd,
Dduw gallu a nerth:
y mae'r nefoedd a'r ddaear yn llawn o'th ogoniant.

Y mae gogoneddus gwmpeni'r apostolion yn dy foli:
y mae cymdeithas ardderchog y proffwydi yn dy foli,

Y mae byddin y merthyron:
yn eu gwisgoedd gwynion yn dy foli.

Y mae'r Eglwys lân drwy'r holl fyd yn dy foli:
y Tad o anfeidrol fawredd;

Dy wir ac unig Fab, sy'n deilwng o bob moliant:
a'r Ysbryd Glân, eiriolwr ac arweinydd.

Ti Grist yw Brenin y gogoniant:
ti yw tragwyddol Fab y Tad.

Pan gymeraist gnawd i'n rhyddhau ni:
dewisaist yn wylaidd groth y Wryf.

Gorchfygaist golyn angau:
ac agor teyrnas nef i bawb sy'n credu.

Yr wyt yn eistedd ar ddeheulaw Duw mewn gogoniant:
yr ydym yn credu y deui di i'n barnu.

Tyrd, felly, O Arglwydd, a chynorthwya dy bobl:
a brynwyd â'th waed dy hun;

A dwg ni gyda'th saint:
i'r gogoniant tragwyddol.

Adnodau dewisol ar y dudalen nesaf ...



Alternative morning canticles

+ Te Deum Laudamus

We praise you, O God, we acclaim you as the Lord:
all creation worships you the Father everlasting.

To you all angels, all the powers of heaven:
the cherubim and seraphim sing in endless praise,

Holy, holy, holy Lord God of power and might:
heaven and earth are full of your glory.

The glorious company of apostles praise you:
the noble fellowship of prophets praise you
the white-robed army of martyrs praise you.

Throughout the world the holy Church acclaims you:
Father of majesty unbounded;

Your true and only Son, worthy of all praise:
the Holy Spirit advocate and guide.

You Christ are the King of glory:
the eternal Son of the Father.

When you took our flesh to set us free:
you humbly chose the Virgin's womb.

You overcame the sting of death:
and opened the kingdom of heaven to all believers.

You are seated at God's right hand in glory:
we believe that you will come and be our judge.

Come then, Lord, and help your people:
bought with the price of your own blood;

And bring us with your saints:
to glory everlasting.

Optional verses are continued on the next page ...



Te Deum Laudamus (adnodau dewisol).

Arglwydd, achub dy bobl a bendithia dy etifeddiaeth:
llywodraetha hwy a'u cynnal yn awr a phob amser.

Ddydd ar ôl dydd bendithiwn di:
a molwn dy enw byth.

Cadw ni heddiw, O Arglwydd, yn ddibechod:
Arglwydd, trugarha wrthym, trugarha wrthym.

Arglwydd, dangos inni dy gariad a'th drugaredd:
oherwydd yr ydym yn ymddiried ynot.

Ynot ti, O Arglwydd, y mae ein gobaith:
na chywilyddier mohonom byth.

Cân gan St. Anselm (c.1033~1109)

Iesu, yr wyt yn cynnull dy bobl atat fel mam;
yr wyt yn addfwyn gyda ni fel mam gyda'i phlant.

Try anobaith yn obaith trwy dy ddaioni pêr;
trwy dy addfwynder cawn gysur pan fyddom mewn ofn.

Fe rydd dy gynhesrwydd fywyd i'r meirw,
gwna dy gyffyrddiad bechaduriaid yn uniawn.

Arglwydd Iesu, yn dy drugaredd iachâ ni;
yn dy gariad a'th diriondeb ail-grea ni.

Yn dy ras a'th drugaredd dwg ras a maddeuant,
a pharatoed dy gariad ni at brydferthwch y nef.

Te Deum Laudamus continued (optional verses).

Save your people, Lord, and bless your inheritance:
govern and uphold them now and always.

Day by day we bless you:
we praise your name for ever.

Keep us today, Lord, from all sin:
have mercy on us Lord, have mercy.

Lord show us your love and mercy:
for we have put our trust in you.

In you, Lord is our hope:
let us never be put to shame.

A song of St. Anselm (c.1033~1109)

Jesus, like a mother you gather your people to you;
you are gentle with us as a mother with her children.

Despair turns to hope through your sweet goodness;
through your gentleness we find comfort in fear.

Your warmth gives life to the dead,
your touch makes sinners righteous.

Lord Jesus, in your mercy heal us;
in your love and tenderness remake us.

In your grace and compassion bring grace
and forgiveness,
for the beauty of heaven may your love prepare us.



Beunydd gyda Duw *llawlyfr gweddi ddyddiol*

Wrth iddo ein dysgu am weddi dywed Iesu fod Duw yn ein caru ac yn aros yn ddisgwylgar i glywed ein gweddïau a'u hateb, a bod dod i'w bresenoldeb yn gofyn dim mwy na dweud wrtho feddyliau ein calonnau. Does dim angen gwneud na dweud dim arbennig, ond mae cael geiriau wedi eu darparu o gymorth. O gymorth hefyd yw gwybod ein bod yn gweddïo yng nghwmni torf enfawr y saint ar y ddaear ac yn y nef a'n bod yn gallu arfer geiriau sydd wedi eu treulio'n ffurfiau llyfn a bendithiol o hir ddefnydd ar hyd yr oesoedd; yn fwyaf arbennig y geiriau a ddysgodd Iesu ei hun i ni, Gweddi'r Arglwydd.

Daily with God *a daily prayer manual*

Jesus teaches us about prayer. He tells us that God loves us, actively wishes to hear and address our prayers, and that coming into God's presence is as simple as speaking the thoughts of our heart. Prayer doesn't need any special words or actions, but being provided with words can often assist. It helps us to know that when we pray, we are joining the great company of saints, here on earth and in heaven, who themselves pray. We can use words worn into smooth and helpful shapes by being passed down from one generation to another, not least the words Jesus himself taught us, the Lord's Prayer.

